

2019 Rhif (Cy.)

2019 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (y  
Drenewydd i Lanymynech, Powys)  
(Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro  
a Dim Goddiweddyd) 2019

The A483 Trunk Road (Newtown  
to Lanymynech, Powys)  
(Temporary Speed Restrictions &  
No Overtaking) Order 2019

*Gwnaed* 17 Ionawr 2019

*Made* 17 January 2019

*Yn dod i rym* 25 Ionawr 2019

*Coming into force* 25 January 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A483, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A483 Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be restricted and/or prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**Title, Commencement and Interpretation**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (y Drenewydd i Lanymynech, Powys) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2019 a daw i rym ar 25 Ionawr 2019.

1. The title of this Order is the A483 Trunk Road (Newtown to Lanymynech, Powys) (Temporary Speed Restrictions & No Overtaking) Order 2019 and it comes into force on 25 January 2019.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2); a

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2); and

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol a fydd yn cychwyn am 08:00 o'r gloch ar 25 Ionawr 2019 ac a ddaw i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o waith wedi eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r A489 wrth Ffordd Dolfor, y Drenewydd hyd at ganolbwynt ei chyffordd â'r U2052 i Ben-y-foel yn Llanymynech, Powys;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### Cyfyngiadau a Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad yn erthygl 5 yn weithredol.

### Cymhwys

7.—(1) Ni fydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw terfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A483 Swansea to Manchester Trunk Road that extends from the centre-point of its junction with the A489 at Dolfor Road, Newtown to the centre-point of its junction with the U2052 to Penyfoel at Llanymynech, Powys;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 08:00 hours on 25 January 2019 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

### Restrictions & Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road.

4. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 30 miles per hour on the length of the trunk road.

5. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 10 miles per hour on the length of the trunk road.

6. No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the length of the trunk road during such times as the restriction referred to in article 5 is in operation.

### Application

7.—(1) The restrictions and prohibition in articles 3, 4, 5 and 6 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

### **Atal Dros Dro**

8. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3, 4 a 5 yn weithredol.

### **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

17 Ionawr 2019

*Richard Morgan*  
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

### **Suspension**

8. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the length of the trunk road are suspended during such times as the restrictions specified in articles 3, 4 and 5 are in operation.

### **Duration of this Order**

9. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated

17 January 2019

*Richard Morgan*  
Head of Planning, Asset Management and Standards  
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (Y  
DRENEWYDD I LLANYMYNECH, POWYS)  
(CYFYNGIADAU CYFLYMDER A DIM  
GODDIWEDDYD DROS DRO) 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A483, neu gerllaw iddi, rhwng y Drenewydd a Llanymynech, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder o 40 mya, 30 mya neu 10 mya ar y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r A489 wrth Ffordd Dolfor, y Drenewydd hyd at ganolbwynt ei chyffordd â'r U2052 i Ben-y-foel yn Llanymynech. Dim ond yn ystod gwaith confoi y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn weithredol a ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hynny.

Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad, y bydd eu hyd a'u lled yn amrywio, yn weithredol yn ysbeidiol o 08:00 o'r gloch ar 25 Ionawr 2019 am gyfnod hwyaf o 18 mis. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am y gwaith yn cael ei arddangos tua 2 wythnos cyn i unrhyw gwaith ddechrau.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru) (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Dros Dro/ 2019).

**Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print bras gan y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**THE A483 TRUNK ROAD (NEWTOWN TO  
LLANYMYNECH, POWYS) (TEMPORARY  
SPEED RESTRICTIONS AND NO  
OVERTAKING) ORDER 2019**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A483 trunk road between Newtown and Llanymynech, Powys.

The effect of the Order is to temporarily impose a 40 mph, 30 mph or 10 mph speed limit on the length of the A483 trunk road that extends from the centre-point of its junction with the A489 at Dolfor Road, Newtown to the centre-point of its junction with the U2052 to Penyfoel at Llanymynech. The 10 mph speed limit will only apply during convoy working and no overtaking will be permitted during these times.

It is expected that the restrictions and prohibition, whose extent will vary, will be in force intermittently from 08:00 hours on 25 January 2019 for a maximum duration of 18 months. Advance notice of the works will be displayed approximately 2 weeks before the start of any works.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at [www.gov.wales](http://www.gov.wales) (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2019).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Transport  
Welsh Government